## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## GRANTIAU CYNNAL ADDYSG A HYFFORDDIANT (GCAH)

### Y mater o dan sylw

1. Y Rhaglen GCAH ar gyfer 2003-4.

### Y Cefndir

2. Y Rhaglen GCAH (Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant) yw un o'r prif ddulliau sydd gan y Cynulliad o gynnal mesurau sydd â'r nod o godi safonau mewn ysgolion. Mae'n rhoi arian grant i awdurdodau addysg lleol ar gyfer amryfal weithgareddau gan gynnwys mesurau i wella presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol; cymorth ar gyfer strategaethau rhifedd a llythrennedd; cymorth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig; y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth; y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig; ariannu TGCh; a datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a phenaethiaid. Mae canllawiau manwl ar sut i ddefnyddio'r grant yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Cylchlythyr GCAH blynyddol yr ymgynghorir â'r Awdurdodau Addysg Lleol yn ei gylch. Mae copi o Gylchlythyr 2003-04 wedi ei amgáu yn **Atodiad A**. Cewch grynodeb o'r prif weithgareddau a gefnogir gan GCAH yn **Atodiad B**.

3. Telir arian GCAH yn ôl cyfradd grant o 60% ac mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Addysg Lleol ddarparu'r arian cyfatebol, sef 40%. Darperir cyllid drwy setliad refeniw llywodraeth leol er mwyn galluogi'r Awdurdodau Addysg Lleol i fodloni'r gofyniad o ran darparu arian cyfatebol. Dosberthir grant GCAH yn unol â fformiwla ddyrannu sy'n cynnwys ffactorau i adlewyrchu anghenion a phwysau lleol, gan gynnwys nifer y disgyblion, athrawon ac ysgolion, dull o fesur teneurwydd poblogaeth ac, ers 2001, dull o fesur amddifadedd cymdeithasol.

4. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o strwythur y Rhaglen GCAH yn 2000 er mwyn sicrhau ei bod yn fwy cydnaws â'r blaenoriaethau yn Gwell Cymru. Yn 2001 gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio â chynrychiolwyr yr awdurdodau addysg lleol i ddatblygu fformiwla ddyrannu ddiwygiedig a oedd yn adlewyrchu'r ffocws cynyddol ar fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae swyddogion wedi parhau i drafod gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol ffyrdd o wella'r rheolaeth ar y rhaglen, a gwelwyd nifer o newidiadau ymarferol yng Nghylchlythyr 2003-04 o ganlyniad i'r trafodaethau hyn.

5. Yn unol ag arferion y gorffennol, yr ydym hefyd wedi ymgynghori â'r awdurdodau addysg lleol ynghylch strwythur a chynnwys y rhaglen ar gyfer 2003-04. Anfonwyd copïau o'r cylchlythyr drafft ar y Cyfarwyddwyr Addysg a chynhaliwyd cyfarfod ymgynghori hanner diwrnod ar 15 Gorffennaf gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdodau Addysg Lleol, Estyn, ACCAC, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, GTC Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymgynghorodd yr Awdurdodau Addysg Lleol â'r ysgolion eu hunain. Cynhaliwyd cyfarfod pellach i adolygu'r gofynion Gwybodaeth Rheoli ar 9 Medi gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill. Yr oedd yr Awdurdodau Addysg Lleol yn weddol fodlon â'r rhaglen arfaethedig ac mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt wedi eu cynnwys yn y Cylchlythyr.

6. Bydd GCAH yn destun adolygiad cynhwysfawr pellach sydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2003. Bydd yr

adolygiad yn anelu at sicrhau bod ariannu'r dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth, ei fod yn cael ei werthuso'n drwyadl, a'i fod yn cyfeirio adnoddau'n llwyddiannus at y gweithgareddau hynny lle byddant fwyaf effeithiol.

**Y Rhaglen GCAH ar gyfer 2003-4**

7. Mae'r dyraniadau ar gyfer pob Maes Gweithgaredd GCAH ar gyfer 2003-04 wedi eu nodi isod:-

**Tabl 1: Dyraniadau Gweithgareddau GCAH**

| **Maes Gweithgaredd** | **2003-4** |
|---|---:|
| Gweithgaredd 1: Codi Safonau | £8,100,000 |
| Gweithgaredd 2: Cynllunio ar gyfer Llwyddiant | £5,400,000 |
| Gweithgaredd 3: Dysgu yn y Blynyddoedd Cynnar | £1,000,000 |
| Gweithgaredd 4: Llythrennedd a Rhifedd | £4,900,000 |
| Gweithgaredd 5: Mynd i’r Afael ag Anfantais Gymdeithasol | £10,400,000 |
| Gweithgaredd 6: Anghenion Addysgol Arbennig | £3,900,000 |
| Gweithgaredd 7: Y Gymraeg | £4,000,000 |
| Gweithgaredd 8: Prosbectws y Tu Allan i Oriau Ysgol | £3,500,000 |
| Gweithgaredd 9: TGCh mewn Ysgolion | £9,494,800 |
| Gweithgaredd 10: Datblygiad Proffesiynol | £7,000,000 |
| **Pob Gweithgaredd** | **£57,744,800** |

8. Bellach bydd arian ar gyfer GCAH yn cael ei ategu a'i gyd-ariannu fel a ganlyn:-

- Bydd ariannu pellach o £3 miliwn yn cael ei roi yn 2003/4 (a £3 miliwn pellach yn 2004/5 a £15 miliwn yn 2005/6) er mwyn ategu arian GCAH ar gyfer Cymorth yn yr Ystafell Ddosbarth. Bydd yn darparu mwy o gymorth gweinyddol er mwyn helpu ysgolion i leihau'r pwysau gwaith ar athrawon i'w galluogi i dreulio mwy o amser yn dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Bydd Cyllid Refeniw Ychwanegol o £7 miliwn yn cael ei roi yn 2003/04 er mwyn lleihau maint dosbarthiadau Iau, gan wella'r lefelau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 3 a chefnogi ysgolion sy'n tanberfformio. Bydd gan yr Awdurdodau Addysg Lleol yr hyblygrwydd i roi cefnogaeth ychwanegol i feysydd sydd eisoes yn derbyn cymorth ym meysydd gweithgaredd 1 a 2 GCAH (Codi Safonau a Chynllunio ar gyfer Llwyddiant)
- Bydd £2 miliwn yn 2004/5 a £7.5 miliwn yn 2005/06 yn gymorth i ddatblygu ysgolion ardderchog, sydd wedi eu rheoli'n dda ac sydd yn ganolbwynt ar gyfer y gymuned.

- Ar gyfer 2002-03 mae'r Llywodraeth wedi sicrhau bod £100,000 ar gael ar gyfer Addysg a Mwy a fydd yn canolbwyntio ar 10 ysgol uwchradd ar ysgolion cynradd sydd yn eu clwstwr er mwyn treialu strategaethau y tu allan i oriau ysgol. Yr ydym wedi neilltuo tua £15,000 y clwstwr i ariannu'r cynigion; bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2003-04 a bydd cyllideb o £500,000 ar gael; mae'r dyraniadau ariannu cychwynnol ar gyfer y rhaglen ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn dangos cyllidebau o £2 miliwn a £5 miliwn yn eu tro, a fydd yn caniatáu i'r Cynulliad gydweithio ag Addysg a Mwy i ddatblygu rhwydwaith o brosiectau dysgu cynaliadwy y tu allan i oriau ysgol ledled Cymru.
- Bydd "Cymorth" yn cael effaith mewn sawl maes, a bydd yn tynnu ynghyd y rhaglenni presennol sef Cychwyn Cadarn, y Gronfa Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol, y Fenter Mynediad Ieuenctid a'r Grant Chwarae er mwyn cyfrannu at ddyheadau Llywodraeth y Cynulliad i leihau nifer y rhaglenni'n gyffredinol. Bydd yn rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu i blant a phobl ifanc, a gall wella cyfleoedd bywyd plant o deuluoedd sydd o dan anfantais. Bydd cyllid gwerth ryw £39 miliwn ar gael yn 2003/04.
- Bydd y prosiect Dysgu yng Nghymru 14-19 yn cael ei gefnogi ymhellach yn y dyfodol gan raglenni buddsoddi sylweddol.

9. Bydd Rhaglen GCAH 2003/04 yn ailgyfeirio adnoddau i gydnabod yr hyn y gall ysgolion ac awdurdodau ei gyflawni er mwyn cyfrannu'n uniongyrchol at yr agenda safonau. Bydd yr awdurdodau yn cael cadw'r swm llawn o 40% a gafodd ei gynnwys yn setliad refeniw 2002-03 a bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd lleol ar gyfer blaenoriaethu'r gwario ar addysg. Ein pwyslais ni yw galluogi ysgolion ac awdurdodau i benderfynu drostynt eu hunain ar sut i weithredu’n lleol yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd o'r canol.

10. Dyma'r prif newidiadau i **gynnwys** y rhaglen:

- Ailstrwythuro gweithgaredd 1 (Codi Safonau) i hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer pynciau ehangach yn y cwricwlwm gan gynnwys cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy, a dinasyddiaeth fyd-eang, ac i gefnogi pynciau penodol yn y cwricwlwm;
- blaenoriaeth newydd wedi'i chynnwys yng Ngweithgaredd 6 (AAA) i gefnogi'r Cynllun Cefnogi ar gyfer Pobl sydd â Nam ar eu Synhwyrau;
- newidiadau i Weithgaredd 7 (Y Gymraeg) er mwyn adlewyrchu'r argymhellion sy'n codi o adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mae'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth wedi ei chadw yng Ngweithgaredd 8 am flwyddyn arall, yn amodol ar werthusiad annibynnol a gaiff ei gynnal gan Gyngor Celfyddydau Cymru;
- blaenoriaeth newydd yng Ngweithgaredd 9 (9D) er mwyn rhoi ystyriaeth i'r arian sy'n cael ei ddarparu i gefnogi datblygiad lleol y Rhwydwaith Band Llydan ar gyfer Dysgu Gydol Oes;
- ailstrwythuro Gweithgaredd 10 (Datblygiad Proffesiynol) er mwyn darparu ar gyfer y cyfnod gorfodol o Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd eu Cymhwyso a dileu unrhyw gyfeiriadau at hyfforddi llywodraethwyr wrth asesu perfformiad athrawon. Cafodd hwn ei roi yng Ngweithgaredd 2 er mwyn sicrhau bod hyfforddiant i lywodraethwyr wedi ei gynnwys mewn un maes gweithgaredd;
- nid oes angen bellach i’r AALl rannu gwariant GCAH 60:40 rhwng Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Mater i'w benderfynu'n lleol fydd sut i ddosrannu adnoddau GCAH rhwng sectorau'r ysgolion. Bydd angen i’r Awdurdodau Addysg Lleol ddangos eu bod yn ymgynghori â'u hysgolion ar sut i ddefnyddio arian GCAH.
- diwygio'r gofynion Gwybodaeth Rheoli (y Dangosyddion Perfformiad gynt).

**Adolygiad o’r Fformwla ar gyfer y Gymraeg**

11. Gwnaeth y cyd-weithgor rhwng y Cynulliad a’r AALl a oedd yn adolygu'r fformiwla GCAH y llynedd argymell

cynnal adolygiad pellach o'r fformiwla ddyrannu ar gyfer Gweithgaredd 7 (y Gymraeg). Sefydlwyd ail weithgor ddechrau eleni gyda chynrychiolwyr o ymgynghorwyr Cymraeg yr Awdurdodau Addysg Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r gweithgor bellach wedi cwblhau ei waith a chytunwyd ar fformiwla ddyrannu ddiwygiedig, sydd wedi ei chynnwys yn y dyraniadau dangosol ar gyfer 2003-4. Ceir crynodeb o'r adolygiad yn **Atodiad C**.

12. Dyma rai o brif gasgliadau'r gweithgor:

- dylai'r Cynulliad barhau i ddyrannu £1 miliwn i Weithgaredd 7 ar sail bidiau cystadleuol oddi wrth yr Awdurdodau Addysg Lleol er mwyn hyrwyddo dulliau arloesol o ddysgu Cymraeg;
- dylid rhoi mwy o arian i gefnogi Cymraeg Iaith Gyntaf; ond
- ni ddylai hyn arwain at symud adnoddau o rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

13. Yn erbyn y cefndir hwn, cyflwynwyd y newidiadau canlynol i'r fformiwla gan roi mwy o sylw i'r Gymraeg fel iaith gyntaf a chynnwys ffactor ar gyfer amddifadedd gan ei wneud yn fwy cyson â'r adolygiad cynharach ar addasu'r fformiwla:

| **Hen Newidyn** | **Pwysiad** | **Newidyn Newydd** | **Pwysiad** |
|---|---:|---|---:|
| Nifer y disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf | 10% | Nifer yr athrawon sy'n dysgu Cymraeg fel Iaith Gyntaf | 15% |
| Nifer y disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel Ail Iaith | 90% | Nifer yr athrawon sy'n dysgu Cymraeg fel Ail Iaith | 65% |
| Amddifadedd<br><br>(Mynegai Amddifadedd Plant) | 0% | Amddifadedd<br><br>(Mynegai Amddifadedd Plant) | 20% |

**Camau i'w cymryd**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a chymeradwyo'r rhaglen GCAH ar gyfer 2003-4.